Dechreuadau Creadigol
I blant yn y Cyfnod Sylfaen Cymreig

Brwydr y Dinosoriaid

Cornerstones
Cwricwlwm

Trosolwg o'r Prosiect

Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar Wybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd ac yn galluogi plant i archwilio byd hanesyddol a gwyddonol y dinosoriaid, yn cynnwys sut 'roeddent yn arfer byw, pryd oeddent yn byw a sut 'roeddent yn ymddwyn ac yn rhyngweithio gyda dinosoriaid eraill. Dylid darparu cyfleoedd i blant i symud ac i chwarae mewn gofodau mawr yn yr awyr agored fel rhan o'r prosiect hwn.

Gan adeiladu ar bwyntiau dechrau yn ystod y Cam Ymgysylltu, bydd eich arsylwadau yn eich galluogi i ddatblygu'r prosiect yn hyblyg gan gymryd i ystyriaeth syniadau a diddordebau eich plant. Yn ystod y Cyfnod Arloesi dylid annog y plant i feddwl yn greadigol a chymhwyso'n feirniadol eu profiadau, sgiliau a dealltwriaeth flaenorol er mwyn dod ag amlinelliad o ddinosor anferth i fywyd.

Yn y prosiect hwn bydd plant yn dysgu am:

- Gwahanol fathau o ddinosoriaid ac am rannau o'u cyrff
- Y gair diflanedig a'i ystyr
- Lysysyddion a Chigysyddion
- Ffyrdd i symud eu cyrff mewn modd creadigol ac i adrodd storïau ac actio golygfeydd mewn amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored
- Yr iaith fathemategol o fesur; megis mawr, mwy, bach, llai, tal, talach, byr, byrrach ac yn y blaen
- Llunio, am wneud marciau ac ysgrifennu cynnar
- Ystod o wrthrychau ac arteffactau sy'n gysylltiedig â'r thema
- Yr iaith Gymraeg gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion ar draws ystod o brofiadau yn yr amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored.

Hawlfraint © 2013 Addysg Cornerstones Cyfyngedig